# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 20 Mehefin 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Y Mesur Swyddfeydd Post

**C7 Christine Humphreys:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i gyfleu i Lywodraeth y DU bryderon y Cynulliad ynglŷn â'r Mesur Swyddfeydd Post, a fynegwyd yn ei ddadl ar 18 Ionawr? (OAQ5823)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Yr ydym wedi dweud o'r blaen, er bod swyddfeydd post yn fater a gadwyd yn ôl, bod dyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru yn destun pryder inni i gyd. Mae swyddogion y Cynulliad wedi bod yn cydweithio â'r Uned Perfformiad a Dyfeisgarwch yn y Swyddfa Gabinet, y cyhoeddir eu hastudiaeth o'r rhwydwaith swyddfeydd post cenedlaethol cyn bo hir. Bydd swyddogion y Cynulliad yn cyfarfod â'r Comisiwn Gwasanaethau Post cysgodol hefyd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cynulliad godi materion o bwys penodol i Gymru. Yr wyf wedi ysgrifennu hefyd at Alan Johnson, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gystadleurwydd yn yr Adran Masnach a Diwydiant i gyfleu pryderon ynghylch cyflwyno trosglwyddiad credyd awtomataidd. Ni chafwyd ateb i'r llythyr hwnnw eto.

### Adolygu Pwerau a Strwythurau'r Cynulliad

**C8 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at sefydlu pwyllgor i adolygu pwerau a strwythurau'r Cynulliad, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5814)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf wedi datgan yn glir fy mod yn hapus i ymchwilio i ffyrdd o wella'r modd y mae'r Cynulliad yn gweithio ac i archwilio'r modd y defnyddir pwerau presennol y Cynulliad fel y gallwn sicrhau bod y cytundeb presennol yn gweithio'n well. Trafodaf hyn ymhellach gydag arweinyddion y pleidiau yn y cyfarfod a gawn ar 22 Mehefin.

### Datblygu Bagloriaeth Gymreig

**C9 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at gomisiynu astudiaeth o sut y gall cysyniad bagloriaeth Gymreig gael ei ddatblygu a'i alinio â fframwaith cyffredinol cymwysterau yng Nghymru, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5816)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ysgrifennodd Rosemary Butler at gadeirydd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ym mis Tachwedd y llynedd. Gofynnodd i ACCAC barhau i gynnwys y Sefydliad Materion Cymreig yn y broses o symud ymlaen ag agenda'r Llywodraeth ar gyfer cymwysterau ôl-16. Yn enwedig, gofynnodd am gyngor ar sut y gellid alinio'r cynigion ar gyfer bagloriaeth Gymreig â datblygiad tystysgrif gyffredinol. Bu ACCAC yn trafod gyda'r SMC, a disgwylia Rosemary Butler gael cyngor gan ACCAC cyn bo hir.

### Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**C10 Pauline Jarman:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth wrth ddatblygu rhaglen garlam ar gyfer adolygu pob un o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a'r fframwaith cyflwyno presennol, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5815)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddaf yn cyhoeddi gydag Edwina Hart yr wythnos hon fod gwaith yn dechrau ar adolygiad pum mlynedd Awdurdod Datblygu Cymru. Hwn fydd y cyntaf o'r adolygiadau o dan y rhaglen garlam a gyhoeddwyd gan Edwina ar 10 Mai. Mae gwaith paratoi wedi cychwyn hefyd yn barod at yr adolygiad o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Gofynnir am sylwadau ar y cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith gan y Pwyllgorau Pwnc priodol a gwneir cyhoeddiad ynghylch cychwyn yr adolygiad cyn bo hir.

### Cynadleddau Haf

**C11 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar baratoadau ar gyfer y cyntaf yn y gyfres o gynadleddau haf a addawyd ynglŷn â materion o bwys megis yr economi, cyflogaeth, cymdeithas a'r amgylchedd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5812)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddem yn gobeithio datblygu syniad y cynadleddau ar sail draws-bleidiol. Yn y cyfamser, ein bwriad yw rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen o weithgareddau cyfranogi sydd yn cael ei threfnu ar gyfer ail hanner y flwyddyn, gan gynnwys, lle bo'n briodol, gynlluniau'r Pwyllgorau Pwnc a Rhanbarth.

### Datblygu Polisi Trafnidiaeth Newydd

**C12 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at ddatblygu polisi trafnidiaeth newydd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5817)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb ysgrifenedig a anfonais atoch ar 16 Mai. Nid yw'r sefyllfa wedi newid.

### Cyfleoedd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

**C13 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at baratoi un datganiad ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy ym maes ynni, gwastraff a thechnoleg lân, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5818)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dyma fater a drafodwn ar ôl llunio'r cynllun datblygu cynaliadwy.

### Hybu Gogledd Cymru

**C14 Peter Rogers:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gyflwyno adroddiad ar fabwysiadu mesurau i sicrhau bod gogledd Cymru yn cael ei hybu yn llawn ac yn deg gan waith y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ5828)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd gan y Trefnydd i'ch cwestiwn llafar yn y Cynulliad, OAQ5466, yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mehefin.

### Mynediad i Bobl Anabl

**C15 Jane Davidson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd bod gwaith datblygu polisïau'r Cynulliad yn rhoi sylw, lle bo'n briodol, i fater mynediad i bobl anabl? (OAQ5803)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n ofynnol i'r Cynulliad sicrhau y gweithredir ei fusnes a'i swyddogaethau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Mae Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad wedi gwneud arolwg i weld i ba raddau y mae cyfle cyfartal wedi'i ymgorffori ar hyn o bryd ym mholisïau a rhaglenni'r Cynulliad. Er bod yr arolwg yn nodi rhai enghreifftiau o arfer da, mae'n dangos hefyd fod angen gwneud cryn dipyn o waith. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi ystyried canlyniadau'r arolwg a bydd swyddogion yn mynd ymlaen â chanfyddiadau'r arolwg ar draws holl amrediad cyfrifoldebau'r Cynulliad, gan gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol. Mae'r

Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi cael y dasg hefyd o fonitro ymateb y Cynulliad i adroddiad y tasglu ar hawliau'r anabl, 'O Allgáu i Gynhwysiant', a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf.

Cyn imi gyhoeddi y byddid yn adolygu adeilad newydd y Cynulliad, rhoesom ymrwymiad clir iawn y bydd cartref newydd y Cynulliad yn darparu mynediad a chyfleusterau da i bobl anabl. Ymgynghorwyd ag Anabledd Cymru a chawsant drafodaethau gyda swyddogion a'r pensaer ynghylch y cynigion ar gyfer yr adeilad newydd. Bwriada'r Cynulliad benodi cynghorydd annibynnol i helpu gyda gwneud trefniadau mynediad i bobl anabl.

Mae'r Cynulliad hefyd yn ystyried y modd y darperir gwybodaeth i'r cyhoedd, ac ymgynghorwyd â'r sector gwirfoddol. Bydd y broses ystyried honno'n cymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau'r Cynulliad dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a'n hymrwymiad yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

### Cwmnïau Ymgynghori Preifat

**C16 Owen John Thomas:** Ar sawl achlysur y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi defnyddio cwmnïau ymgynghori preifat allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (OAQ5804)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ystod 1999-2000, defnyddiodd y Cynulliad ymgynghorwyr allanol ar 34 achlysur am gyfanswm cost o £892,000. O'r swm hwnnw, gwariwyd £709,000 i roi cefnogaeth uniongyrchol i raglenni polisi, a £183,000 i gefnogi gweinyddiaeth y Cynulliad.

### Strategaeth Gyflogaeth Glir i Gymru

**C17 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at nodi strategaeth gyflogaeth glir i Gymru, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5821)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn Rhodri Glyn Thomas, OAQ5644, ar 14 Mehefin.

### Fframwaith Gofodol Cenedlaethol Newydd ar gyfer Cynllunio

**C18 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at fframwaith gofodol cenedlaethol newydd ar gyfer cynllunio, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5819)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyflwynodd Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Sue Essex, adroddiad ar symud ymlaen â fframwaith gofodol i Gymru i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 18 Mai. Fel cam cyntaf yn y broses gynhwysol o baratoi'r fframwaith, caiff elfennau gofodol eu tynnu allan yn gliriach, ac ychwanegu atynt, yn yr adolygiad cyfredol o bolisi cynllunio. Yn ogystal, dechreuwyd gweithio ar ddatblygu strategaeth drafnidiaeth i Gymru, a fydd yn perthyn yn agos i'r fframwaith gofodol. Bydd y fframwaith gofodol esblygol yn adeiladu ar y rhain, gan gymryd i ystyriaeth farn Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Aelodau'r Cynulliad, agweddau perthnasol o'r safbwynt datblygiad gofodol Ewropeaidd, astudiaethau ymchwil ac elfennau strategol o waith awdurdodau cynllunio lleol, asiantaethau'r Cynulliad a sefydliadau ac unigolion eraill.

### Gwella Lles Pobl Cymoedd De Cymru

**C19 Lynne Neagle:** Pa gamau a gymerir gan y Cynulliad i wella lles pobl cymoedd de Cymru? (OAQ5827)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ogystal â rhychwant eang polisïau'r Cynulliad ar gyfer gwella lles pobl ym mhob rhan o Gymru, mae nifer o gynlluniau ar droed sydd yn benodol i'r Cymoedd. Mae'r rhain yn cynnwys 'Iechyd yn y Gwaith'—prosiect peilot tair blynedd yn ardaloedd Merthyr Tudful a Chwm Cynon—'Symudiadau Dosbarth', sydd yn hybu ymarfer corfforol mewn ysgolion cynradd, a chystadleuaeth y dosbarth di-fwg.

Yn dilyn dadl Cyfarfod Llawn fis Tachwedd diwethaf, mae cynllun gweithredu i'r Cymoedd yn cael ei ddatblygu drwy Bwyllgorau'r Cynulliad. Mae'r cynllun yn ymdrin â chwe phwnc, yn cynnwys mynd i'r afael â iechyd gwael a hybu lles. Cyflwynir drafft cyntaf o'r cynllun hwn i Bwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain ar 7 Gorffennaf ac i Bwyllgorau Pwnc yn sesiwn nesaf y Cynulliad.

Ar lefel strategol, cynlluniau gwella iechyd yw'r prif gerbyd ar gyfer gwella iechyd a darparu gwasanaethau iechyd gwell. Dylent gynnwys proffil cynhwysfawr ar anghenion iechyd gyda phwyslais arbennig ar anghydraddoldebau ymhlith grwpiau ac ardaloedd penodol.

## Prosiectau Know-How Wales a SMART Wales

**C20 William Graham:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynglŷn ag effeithlonrwydd prosiectau Know-How Wales a SMART Wales yn Nwyrain De Cymru drwy bartneriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol â byd busnes? (OAQ5826)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Lansiwyd Know-How Wales ym mis Tachwedd 1999 i hyrwyddo cydweithredu ychwanegol a mwy effeithiol mewn cwmnïau neu golegau i fasnacheiddio'r arbenigedd a'r dechnoleg sydd yn bodoli yn ein sefydliadau addysg bellach ac uwch. Gall bwyntio at nifer o lwyddiannau yn barod.

Gweithredir y fenter gan dîm o bedair gweithrediaeth ranbarthol, un wedi'i phenodi i bob un o ranbarthau economaidd Cymru. O'r pedair, rhanbarth de-ddwyrain Cymru sydd â'r crynodiadau mwyaf o sefydliadau addysgol—gyda 12 o brifysgolion a cholegau addysg bellach ac uwch—a busnesau. Mae Know-How Wales wedi noddi nifer o ddigwyddiadau hyrwyddo lleol, sydd wedi ysgogi 64 o fusnesau hyd yn hyn i gychwyn trafodaethau yn y gobaith o ganfod arbenigedd academaidd perthnasol i anghenion eu cwmnïau.

At hynny, mae'r weithrediaeth leol wedi rhoi cymorth uniongyrchol i 19 o fusnesau eraill drwy eu cyfeirio ymlaen at ffynonellau cymorth eraill, fel HELP Wales a'r gwasanaeth cynghori ar arloesi a thechnoleg a gynigir gan Gyswllt Busnes Cymru. Disgwylir twf pellach wrth i'r gwasanaeth aeddfedu.

Mae SMART Wales yn cynrychioli set o dri chynllun sydd yn cynnig cefnogaeth ariannol yn ystod y camau cynharaf, a pheryclaf felly, yn natblygiad cynhyrchion a phrosesau newydd arbennig o arloesol. Mewn egwyddor, gall y gwahanol gynlluniau fod o gymorth i fusnesau o bob maint yn amrywio o unigolion i gwmnïau sydd yn cyflogi hyd at 250 o bobl.

Bydd y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn destun adolygiad annibynnol ffurfiol a wneir yn ddiweddarach eleni. Mewn adolygiad tebyg, er yn fewnol, o'r cynllun SMART cystadleuol yn 1998 canfuwyd fod canran uchel o'r rhai a enillodd grantiau wedi mynd ymlaen i ddatblygu cynhyrchion llwyddiannus gan ddangos lefel uchel o ddyfeisgarwch. Yr oedd y rheini a gyrhaeddodd y cam marchnata wedi creu cyfartaledd o 5.3 o swyddi, tra'n darparu tystiolaeth gref hefyd fod y gefnogaeth a ddarparwyd wedi arwain yn uniongyrchol at arallgyfeirio busnes a datblygu cynhyrchion newydd pellach.

Yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, enillodd cyfanswm o 26 o gwmnïau ddyfarniadau SMART ar gyfer y cam astudio dichonolrwydd, a hynny'n rhoi cyfanswm gwerth £1.3 miliwn o grant, gan wasgu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat o ryw £1.2 miliwn mewn ymchwil a datblygu. Ar ben hynny, yn ystod yr un cyfnod, derbyniodd cyfanswm o 20 o gwmnïau gefnogaeth cyn prototeip ar gyfer cynnyrch oedd yn destun ymchwil, neu SPUR, grant o £2.3 miliwn a atebwyd gan fuddsoddiad o dros £4.2 miliwn gan y sector preifat.

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o adeiladu ymhellach ar y llwyddiannau hyn.

### Datblygu Rhaglen Cymru a'r Byd

**C21 Elin Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at ddatblygu rhaglen Cymru a'r byd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5822)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad eisoes wedi ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, ac wedi sefydlu presenoldeb uniongyrchol ar lefel swyddogol ym Mrwsel a fydd yn rhoi cyfle i Gymru ddefnyddio'i dylanwad yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae nifer o fesurau eraill ar y gweill i hyrwyddo Cymru dros y môr ac mae fy swyddogion eisoes yn gweithio gyda chyrff allweddol yn y sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth i godi proffil Cymru'n rhyngwladol. Yr ydym ar hyn o bryd yn datblygu pecyn hyrwyddo a marchnata ac yn edrych tuag at ddatblygu rhaglen gynlluniedig o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer blynyddoedd i ddod.

### Y Cynllun Datblygu Gwledig

**C22 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar gynnydd ei Lywodraeth tuag at sicrhau bod y cynllun datblygu gwledig mewn grym erbyn yr hydref, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5813)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r cynllun datblygu gwledig yn ddogfen bwysig a fydd yn darparu amrediad eang o fesurau a fydd o fudd uniongyrchol i gymunedau gwledig ledled Cymru. Mae'n holl bwysig inni gael cynllun cytunedig yn ei le cyn gynted ag y bo modd, a chydnabyddir hyn yn y negodiadau adeiladol iawn sydd ar droed ar hyn o bryd rhwng swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Mwy o Integreiddio rhwng y DU a'r UE

**C23 John Griffiths:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael â Gweinidogion y DU ynglŷn â mwy o integreiddio rhwng y DU a'r UE? (OAQ5800)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn llafar OAQ5667 ar 13 Mehefin.

### Drafftio Cynlluniau Gweithredu Amcan 1

**C24 Michael German:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cymryd i weithredu penderfyniad y Cynulliad ar 12 Ebrill i roi cefnogaeth weithredol i gyrff sydd yn drafftio cynlluniau gweithredu Amcan 1? (OAQ5830)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers sefydlu Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru ddechrau Ebrill, bu'n datblygu'i chysylltiadau â'r partneriaethau Amcan 1 lleol a rhanbarthol sydd yn codi. Sefydlwyd timau cynllun gweithredu lleol ar sail is-ranbarthol ac maent yn cyfarfod â phob partneriaeth leol i drafod eu cynlluniau. Caiff SGEC ei chynrychioli hefyd mewn cyfarfodydd partneriaeth rhanbarthol yn rheolaidd. Bydd staff hefyd yn darparu arweiniad a chyngor rheolaidd i bartneriaethau rhanbarthol ac mae uned newydd ar gyfer y sector preifat yn cael ei sefydlu o fewn SGEC.

Pan gyfarfu'r pwyllgor monitro rhaglenni cysgodol ddydd Mawrth, fe ystyriodd gynigion ar gyfer darparu cymorth ariannol i rai sydd yn hwyluso partneriaethau Amcan 1 drwy gymorth technegol Ewropeaidd.

### Dyled y Trydydd Byd

**C25 Mick Bates:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i dynnu sylw Canghellor y Trysorlys at farn y Cynulliad ar ddyled y trydydd byd, yn unol â'r cynnig ar 1 Mawrth 2000? (OAQ5798)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr yn yr Adran Ddatblygu Rhyngwladol. Yng nghyfarfodydd gwanwyn Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yn ddiweddar, deallaf i Weinidogion cyllid a datblygu ailgadarnhau eu hymrwymiad i fenter y gwledydd tlawd dan ddyledion trwm, gan annog Banc y Byd a'r IMF i roi'r flaenoriaeth uchaf i'r broses er mwyn galluogi gwledydd sydd yn gymwys am HIPC i dderbyn rhyddhad o ddyled ynghynt.

### Effeithiau Gweithredu'r Isafswm Cyflog

**C26 Brian Gibbons:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn ag effeithiau gweithredu'r isafswm cyflog yng Nghymru? (OAQ5799)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddaf yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd gan drafod amrywiaeth o faterion economaidd gydag ef. Mae cyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol wedi golygu budd anghymesur i weithwyr yng Nghymru.

### Hysbysu Aelodau'r Cynulliad am Benderfyniadau'r Cabinet

**C27 David Davies:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael gwybod am benderfyniadau'r Cabinet? (OAQ5831)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Ysgrifenyddion Cynulliad yn gwbl atebol i Aelodau eraill, drwy gyfrwng dadleuon cyfarfodydd llawn, cwestiynau i'r Cynulliad ac mewn Pwyllgorau. Byddaf fi a'm cyd-Aelodau i gyd hefyd yn cwrdd â'r Aelodau sydd yn cyfateb inni yn y pleidiau eraill yn aml iawn.

### Y Broses Datblygu Polisïau

**C28 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar y broses datblygu polisïau a ddefnyddir gan y weinyddiaeth? (OAQ5806) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cytundeb yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**C29 Dafydd Wigley:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn cynnal trafodaethau gyda Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Canghellor ynglŷn â chytundeb yr adolygiad cynhwysfawr o wariant? (OAQ5825)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y materion sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys yr adolygiad o wariant. Yr wyf wedi cyflwyno sylwadau cryf i'r Canghellor a Gweinidogion eraill y Trysorlys ynglŷn ag anghenion Cymru yn yr adolygiad o wariant a gynhelir yn fuan, yn enwedig mewn perthynas â'r cronfeydd strwythurol.

### Rheoli a Gwella Amseroedd Aros Ysbytai

**C30 Geraint Davies:** A wnaiff Llywodraeth y Prif Ysgrifennydd lunio dull tecach, yn seiliedig ar ystyriaethau clinigol, o reoli a gwella amseroedd aros ysbytai erbyn mis Hydref 2000, yn unol â'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ5832)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae 'Gwellcymru.com' wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno dull tecach a mwy tryloyw, clinigol ei sail, tuag at reoli cleifion sydd yn aros am driniaeth ysbyty. Sefydlwyd y grŵp datblygu strategaeth ar amserau aros fis Rhagfyr diwethaf i ddatblygu polisi yn seiliedig ar amserau aros a ffocws ar drin cleifion yn ôl eu blaenoriaeth glinigol. Cyflwynir adroddiad terfynol y grŵp i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl toriad yr haf.